



PWYLLGOR CRAFFU'R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

**COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN SWYDDFEYDD Y
CYNGOR YN NHŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS AR
DDYDD MAWRTH 17 HYDREF AM 5.30PM**

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd T. Parry - Cadeirydd
Y Cynghorydd B. Miles - Is-gadeirydd

Cynghorwyr:

E.M. Aldworth, C. Bishop, A. Broughton-Pettit, M. Chacon-Dawson, P. Cook, D. Cushing, M. Evans, A. Farina-Childs, C. Gordon, T. Heron, A. Leonard, J. Roberts, J. Simmonds, J. Winslade a K. Woodland.

Aelodau'r Cabinet:

Y Cynghorydd C. Andrews (Addysg a Chymunedau), E. Forehead (Gofal Cymdeithasol) a J. Pritchard (Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd).

Ynghyd â:

Swyddogion: R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), A. West (Rheolwr Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif), G. Jenkins (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Pennaeth Gwasanaethau i Blant), J. Williams (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Gwasanaethau i Oedolion), M.J. Jones (Rheolwr Gwasanaethau Ariannol), C. Forbes-Thompson (Rheolwr Craffu) a J. Lloyd (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn bresennol:

Aelodau Cyfetholedig: Mrs T. Millington (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwyr) a Mrs K. Cole (Undeb Addysg Cenedlaethol).

TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd y Cadeirydd y rhai oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ac y byddai recordiad ar gael i'w weld drwy wefan y Cyngor, ac eithrio trafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Cliciwch yma i weld.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd S. Skivens, Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archesgobaethol Eglwys Uniongred Rwsia Caerdydd dros Addysg), Mr G. James (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr), Mrs P. Ireland (Undeb Addysg Cenedlaethol) a Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili).

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod, nac yn ystod y cyfarfod.

3. CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A GYNHALIWDYD AR 12 MEDI 2023.

Cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Medi 2023 fel cofnod cywir a, drwy Microsoft Forms (ac wrth nodi bod 15 o blaid, 0 yn erbyn ac 1 yn ymatal), cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 12 Medi 2023 (cofnodion rhif 1-7) fel cofnod cywir.

4. YSTYRIED UNRHYW FATER A GYFEIRIWDYD AT Y PWYLLGOR CRAFFU YN UNOL Â'R WEITHDREFN GALW I MEWN.

Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion at y Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.

5. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynodd y Rheolwr Craffu yr adroddiad, a oedd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ei Flaenraglen Waith a gynlluniwyd ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2023 a mis Mawrth 2024.

Cynigiodd yr aelodau eitemau adroddiad ychwanegol i'w hychwanegu, gan gynnwys y defnydd o fêps a ffonau symudol mewn ysgolion, achosion pwysau'r gaeaf ac addysg yn y cartref. Eglurodd un Aelod fod adroddiad Cabinet ynghylch plant nad oedden nhw'n gallu mynychu'r ysgol wedi dod gerbron y pwyllgor craffu ym mis Mehefin 2023. Hysbyswyd yr Aelodau hefyd y gellid cyflwyno adroddiad ar achosion pwysau'r gaeaf i'r Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu cyfarfod nesaf ddiwedd mis Tachwedd. Gofynnodd y Cadeirydd hefyd i adroddiad sy'n mynd i'r Cabinet ynghylch pryddau ysgol am ddim gael ei gynnwys fel eitem wybodaeth ar gyfer y pwyllgor craffu hwn ddiwedd mis Tachwedd.

Yn dilyn ystyried yr adroddiad, ac yn amodol ar yr eitemau ychwanegol a gynigiwyd, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhelliad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms.

PENDERFYNWYD cyhoeddi'r Flaenraglen Waith fel y'i hatodwyd i bapurau'r cyfarfod, ac yn amodol ar yr eitemau agenda ychwanegol a gynigwyd, ar wefan y Cyngor.

6. ADRODDIADAU'R CABINET

Cadarnhawyd na fu unrhyw geisiadau i unrhyw un o adroddiadau'r Cabinet a restrwyd ar yr agenda gael eu dwyn ymlaen i'w trafod yn y cyfarfod.

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol.

7. RHAGLEN BAND B CYMUNEDAU DYSGU CYNALIADWY – CYNNIG YSGOL Y LAWNT AC YSGOL GYNRADD RHYMNI UCHAF.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau yr adroddiad a chynghorwyd yr Aelodau mai diben yr adroddiad oedd ymgynghori'n swyddogol gyda'r Aelodau mewn perthynas â Rhaglen Band B Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a gynigiwyd i adleoli Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf.

Gofynnodd y pwyllgor craffu am eglurder ynghylch sut mae'r fformiwla ariannu ar gyfer ysgolion yn gweithredu, a sut y bydd hyn yn cael ei gymhwysu i bob ysgol. Canfyddiad y cyhoedd yw bod addysg cyfrwng Cymraeg yn ddrytach. Sicrhawyd yr aelodau y bydd yr ysgolion yn cael eu hariannu ar yr un sail drwy'r fformiwla ariannu teg a gymhwysir i bob ysgol arall, a bod ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn cael eu hariannu ar yr un sail. Pe bai unrhyw newidiadau i'r fformiwla ariannu, byddai hyn yn gofyn am ymgynghoriad ynghylch y fformiwla ariannu ei hun.

Gofynnodd Aelod am wybodaeth am y cyfleusterau a rennir, a ddylai sicrhau arbedion cost, a gofynnodd a fyddai pob ysgol yn cael cadw'r arbedion hynny, neu a fyddai'r Awdurdod Lleol yn elwa o'r arbedion. Cynghorwyd y pwyllgor y bydd yr ysgolion hyn yn sero net ac yn effeithlon iawn o safbwynt ynni. Fodd bynnag, bydd yr ysgolion yn dal i gael eu hariannu gan ddefnyddio'r fformiwla ariannu teg bresennol. Fodd bynnag, wrth i ni symud tuag at adeiladu rhagor o ysgolion ar sail sero net, efallai y bydd angen adolygu'r fformiwla ariannu teg o ran costau adeiladau.

Fe wnaeth y pwyllgor craffu geisio eglurder ynghylch yr hyn y mae Band B yn ei olygu a chynghorwyd mai terminoleg Llywodraeth Cymru ydyw, a ddechreuodd gyda Band A, a oedd yn weithredol tan 2019. Mae Band B yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2019 a 2026. Mae hyn bellach yn newid i raglen dreigl a gofynnir i awdurdodau lleol gyflwyno cynigion ar gyfer y 9 mlynedd nesaf. Yna, caiff hyn ei rannu'n gyfnodau hylaw o dair blynedd, ac mae swyddogion yn edrych ar sut y gellir gwneud hynny a beth y gellir ei anfon at Lywodraeth Cymru.

Gofynnodd Aelod pa amserlen a ragwelir ar gyfer cwblhau'r uned newydd ym Mhontllan-fraith a dywedwyd wrtho fod disgwyl i'r Ganolfan i Ddysgwyr Agored i Niwed gael ei chwblhau erbyn diwedd 2024.

Gofynnodd y pwyllgor craffu beth yw'r amserlen ar gyfer cwblhau'r ddwy ysgol, pe bai'r caniatâd yn cael ei gyflawni. Cynghorwyd yr Aelodau bod yna broses hirfaith mewn perthynas â'r cynigion hyn. Mae hyn yn cynnwys ein hymgyngoriad, ac mae gan Lywodraeth Cymru baneli i ystyried pob achos busnes. Mae achos busnes amlinellol eisoes wedi'i gyflwyno mewn perthynas â'r cam cyntaf, sydd wedi'i gymeradwyo. Yn dilyn ymgynghoriad, bydd yn dychwelyd i'r pwyllgor craffu ar 28 Tachwedd 2023, cyn mynd i'r Cabinet, ac os caiff ei gymeradwyo, y cam nesaf yw'r hysbysiad statudol, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer dechrau gwanwyn 2024, ac mae'n ofynnol am 28 diwrnod. Yn dilyn hynny, bydd yn dychwelyd i'r pwyllgor craffu a'r Cabinet gyda'r adroddiad gwrthwynebu (terminoleg Llywodraeth Cymru). Yna, bydd yn dychwelyd i Lywodraeth Cymru gyda'r achos busnes llawn, a'r gobaiith yw y gallai'r ysgolion gael eu cwblhau erbyn Medi 2027.

Holodd y pwyllgor craffu sut y bydd yr ysgol yn cael ei gwahanu a pha drefniadau diogelu fydd yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod pobl sy'n ymweld â'r safle yn cael eu rheoli. Sicrhawyd yr aelodau y bydd y rhain yn ddau endid ar wahân ac y bydd gan bob ysgol eu hardaloedd eu hunain y maen nhw'n eu rheoli. Bydd derbynfa a rennir gyda man diogel ar gyfer unrhyw ymwelwyr, gyda mynedfeydd ar wahân ar ben hynny i blant gael mynediad i bob ysgol.

Gofynnodd yr aelodau am sicrwydd ynghylch diogelu'r Gymraeg yn yr ysgol, a holwyd a fyddai disgyblion ysgol cyfrwng Cymraeg ar wahân i'r disgyblion Saesneg eu hiaith. Sicrhawyd y pwyllgor y bydd dwy ysgol ar wahân, a bydd gan bob un ei maes chwarae, ei hystafelloedd

dosbarth, a'i neuaddau ei hun. Fodd bynnag, bydd modd agor rhai ardaloedd at ddefnydd cymunedol. Rhoddodd y Cadeirydd ei hadborth i'r pwyllgor ar yr ymweliad â math tebyg o ddarpariaeth yng Nghaerdydd a dywedodd ei bod yn teimlo'n dawel ei meddwl ar ôl yr ymweliad bod modd i'r dull hwn weithio'n dda iawn. Cyfarfu swyddogion, aelodau'r pwyllgor craffu, penaethiaid a llywodraethwyr â'r ddau bennaeth yn ysgolion Caerdydd, a dywedon nhw eu bod yn teimlo'n gyfforddus eu bod yn gweithredu dwy ysgol ar wahân. Bydd swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r ddwy ysgol, penaethiaid a chyrrff llywodraethu i sicrhau bod y cynllun yn diwallu anghenion a gofynion y ddwy ysgol.

Holodd yr aelodau a oedd yr ymweliad ag ysgolion Caerdydd wedi casglu unrhyw wybodaeth ychwanegol, er enghraifft, a oedd unrhyw ymdeimlad o gystadleuaeth neu elyniaeth rhwng y ddwy ysgol, neu a oedd yn ymddangos bod yr addysg Gymraeg yn yr ysgol Saesneg wedi elwa o gael ysgol cyfrwng Cymraeg drws nesaf. Hefyd, cynghorwyd yr aelodau bod gan yr ysgol cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd uned drochi Cymraeg ar gyfer disgyblion a oedd wedi symud i'r ardal o'r tu allan i Gymru ac sydd am gael eu cyflwyno i'r iaith, sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn. Ni chododd y naill bennaeth na'r llall o Gaerdydd unrhyw bryderon o'r natur hon.

Hefyd, cynghorwyd y pwyllgor craffu y gallai cydleoli'r ddwy ysgol hyn hefyd ddarparu cyfleoedd i gynorthwyo dysgu proffesiynol i staff er enghraifft, a gallan nhw ystyried cynnal digwyddiadau ar y cyd.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch a ymgynghorir â disgyblion hefyd fel rhan o'r broses a chynghorwyd yr Aelodau bod llais y disgyblion wedi'i gynnwys yn yr ymgynghoriad, a bod fersiwn 'cyfeillgar i blant' o'r ddogfen ymgynghori wedi'i pharatoi.

Fe wnaeth yr aelodau sylwadau ar bellter teithio'r ysgolion newydd, a sut mae'n cymharu â'r pellter a deithir i'r ysgolion presennol. Roedd y pwyllgor wedi cael eu cynghori bod taith gerdded 4 munud ac 16 munud rhwng yr ysgolion presennol a'r ysgol newydd. Fodd bynnag, nid yw hynny o gyfeiriadau eu cartrefi, felly, i rai teuluoedd bydd y daith gerdded i'r ysgolion newydd yn fyrrach i rai ac yn hirach i eraill. Fodd bynnag, os yw hyn yn fwy na 1.5 milltir, gallan nhw fanteisio ar gludiant am ddim i'r ysgol.

Dywedodd yr aelodau fod y model hwn eisoes wedi'i ddefnyddio ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, gydag Ysgol Gynradd Ystrad Mynach a'r ysgol cyfrwng Cymraeg, a oedd â meysydd chwarae ar wahân ac ati, ac yn gweithio'n dda.

Nododd y Pwyllgor Craffu gynnwys yr adroddiad a chyflwyno sylwadau ar y cynigion.

8. COD TREFNIADAETH YSGOLION 2018 - CYNNIG AR GYFER CAU YSGOL FABANOD CWM GLAS.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau yr adroddiad i ymgynghori'n swyddogol â'r Aelodau mewn perthynas â'r cynnig i gau Ysgol Fabanod Cwm Glas erbyn Gorffennaf 2024.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau, oherwydd bod nifer y disgyblion yn yr ysgol yn gostwng, a rhagwelir y bydd yn gostwng ymhellach, bod cyfarfod wedi ei drefnu gan y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu gyda chynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol, gan gynnwys y Prif Swyddog Addysg, i drafod hyfywedd yr ysgol yn y dyfodol.

Cafodd ei gytuno yn y cyfarfod hwn na allai'r ysgol bellach gynnal cyllideb wedi'i mantoli a lefel staffio briodol, felly, gwnaed penderfyniad gan Bennaeth a Chorff Llywodraethu'r ysgol i gau Ysgol Fabanod Cwm Glas.

Gofynnodd yr Aelodau pa ddewisiadau eraill heblaw cau'r ysgol sydd wedi'u harchwilio ac a fyddai unrhyw un o'r rhain yn ariannol hyfyw. Cynghorwyd y pwyllgor craffu bod y corff llywodraethu, yn ogystal â swyddogion, wedi edrych ar yr opsiynau ond nad oes modd sicrhau cyllideb wedi'i mantoli. Mae costau sefydlog mae'n rhaid eu talu a gyda nifer y disgyblion yn gostwng, ni fyddai hynny'n gyraeddadwy.

Gofynnodd y pwyllgor craffu beth fyddai'r cynlluniau pe bai mewnlifiad annisgwyl o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Coed-y-Brain ac a oes ganddi'r gwytnwch i ymdopi. Sicrhawyd yr aelodau y bydd y 28 disgybl o Ysgol Fabanod Cwm Glas yn gallu trosglwyddo o fis Medi 2024, yn amodol ar ddewis y rhieni. Byddai 80 o leoedd gwag o hyd yn Ysgol Gynradd Coed-y-Brain wrth fynd ymlaen er mwyn darparu ar gyfer unrhyw geisiadau pellach am leoedd.

Mynegodd yr aelodau bryder am y staff a gyflogir yn Ysgol Fabanod Cwm Glas a gofynnwyd beth fydd yn digwydd iddyn nhw. Cynghorwyd y pwyllgor craffu, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, y byddai cyfarfodydd helaeth gyda chydweithwyr o Adnoddau Dynol a hefyd gyda'r staff dan sylw, gyda'r nod o'u hadleoli i swyddi gwag o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili os yn bosibl.

Amlygodd y pwyllgor craffu fod 50% o ddisgyblion Ysgol Fabanod Cwm Glas yn byw y tu allan i'r dalgylch, a gofynnodd a fydden nhw'n mynd i ysgol o fewn eu dalgylch os bydd Ysgol Fabanod Cwm Glas yn cau. Cynghorwyd yr aelodau mai mater o ddewis rhieni yw hynny.

Nododd y Pwyllgor Craffu gynnwys yr adroddiad a chyflwyno sylwadau ar y cynigion.

9. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB 2023/24 (MIS 3).

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol yr adroddiad a oedd yn hysbysu'r Aelodau o'r gwariant refeniw a ragwelir ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ym mlwyddyn ariannol 2023/24 a'i oblygiadau ar flynyddoedd ariannol y dyfodol. Mae'r adroddiad yn nodi'r rhesymau y tu ôl i danwariant o £2,938,000 a ragwelir ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2023/24, gan gynnwys costau cludiant, a bydd hefyd yn ystyried goblygiadau'r tanwariant hwn a ragwelir ar falansau wrth gefn Gwasanaethau Cymdeithasol ac ar flynyddoedd ariannol y dyfodol.

Holodd un Aelod am y 330 awr o angen heb ei ddiwallu a'r swyddi gwag mewn gofal cymdeithasol. Cynghorwyd yr aelodau bod recriwtio ar gyfer gofal cymdeithasol yn barhaus ond yn heriol iawn ar hyn o bryd, a gostyngwyd yr oriau o angen heb ei ddiwallu i 117 y mis hwn.

Holodd un Aelod am gostau gofal preswyl gan gynnwys llety diogel, a ble y byddai'r rhain yn cael eu lleoli. Cynghorwyd yr aelodau nad oedd 'angen' mawr am lety diogel yng Nghaerffili, gyda dim ond un plentyn mewn llety diogel ar hyn o bryd. Mae dau dŷ wedi'u prynu i'w defnyddio fel cartrefi plant, un yn Aberbargod ac un yng Nghefn Fforest, a bwriedir cwblhau adeiladu adeilad newydd yn Rhymni yn 2024.

Gofynnodd un Aelod am eglurhad ar y 'gwarcheidiaethau arbennig' a chynghorwyd yr aelodau bod y bobl hyn bron bob amser yn berthnasau agos i'r teulu ac y cyfeirir atyn nhw fel personau cysylltiedig. Mae'r elfennau ariannol yn cynnwys asesiadau o'r personau a sicrhau nad oes colled ariannol i'r rhai sy'n gofalu am blant sydd, i bob pwrpas, yn 'maethu' y plant hynny, er eu bod nhw'n perthyn.

Holodd un Aelod am Raglen Eiddilwch Gwent, ac a oedd hwn yn wasanaeth adnabyddus ac a allai fod wedi cyfrannu at y tanwariant yn y maes hwn. Cynghorwyd yr aelodau bod y tanwariant yn ymwneud â recriwtio. Hefyd, cynghorwyd yr Aelodau mewn perthynas â'r cynllun sydd â galw uchel, ac nad oes yn rhaid i bobl fod dros 65 oed i fod yn gymwys, ac y gall meddygon teulu ac ysbytai atgyfeirio pobl i'r rhaglen hon os ydyn nhw ei angen.

Gofynnodd un Aelod am eglurhad ar Brosiect Plant Coll Gwent. Cynghorwyd yr aelodau bod hwn yn brosiect wedi'i ariannu gan y loteri sydd wedi'i anelu at blant a oedd ar goll yn flaenorol, gan gwrdd â nhw a'u cyfweld i bennu unrhyw agweddau a chymorth diogelu sydd eu hangen, oedd angen eu rhoi ar waith i osgoi unrhyw achosion pellach o fod 'ar goll'. Hefyd, cynghorwyd yr Aelodau bod y cyllid ar fin dod i ben, a bod y bwrdd partneriaeth rhanbarthol ar fin trafod dyfodol y prosiect.

Holodd un Aelod ynghylch y 'costau mabwysiadu eraill' a chontractau Teuluoedd yn Gyntaf. Cynghorwyd yr aelodau bod y 'costau mabwysiadu eraill' yn ymwneud â phlant sy'n fwy anodd dod o hyd i leoedd mabwysiadu ar eu cyfer, ac mae'r rhain wedi'u cofrestru ag asiantaethau annibynnol er mwyn dod o hyd i leoedd mabwysiadu yn unrhyw le yn y DU. Mae angen cymorth ariannol ar rai unigolion sy'n mabwysiadu a, lle mae plentyn yn cael ei leoli y tu allan i Fwrdeistref Sirol Caerffili, byddai'r Awdurdod yn parhau i fod yn gyfrifol yn ariannol am y plentyn am hyd at 3 blynedd, ac ar ôl yr amser hwn, byddai'n trosglwyddo i awdurdod lleol yr ardal maen nhw'n byw ynddi. Byddai'r costau hyn hefyd yn cynnwys plant a oedd yn byw y tu allan i'r ardal ac a oedd â'u lle mabwysiadu ym Mwrdeistref Sirol Caerffili.

Hefyd, cynghorwyd yr aelodau fod Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei ariannu gan grant Llywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal cynnar. Roedd y costau ychwanegol yn cynnwys y gwasanaethau ychwanegol a ddarperir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, a dywedwyd wrth yr aelodau y byddai gwybodaeth ariannu Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei dosbarthu i'r aelodau ar ôl y cyfarfod.

Eglurodd un Aelod nad y tanwariant o £2,938,000 a ragwelir fyddai'r ffigwr terfynol gan mai dim ond rhagamcan oedd hwn. Cynghorwyd yr Aelodau bod y ffigurau hyn yn seiliedig ar y ffigurau presennol ym mis Mehefin a'r costau amcangyfrifedig ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar y ffigurau hyn.

Holodd un Aelod ynghylch y tanwariant o £43,000 yn y Gwasanaeth Troseddau leuenctid a chafwyd trafodaeth wedyn ynghylch a fyddai ad-daliad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn digwydd, o ystyried costau cynyddol y gwasanaeth yn y dyfodol.

Gofynnodd un Aelod am eglurhad ynghylch y cymorth a roddir i blant sy'n ceisio lloches ac a ydyn nhw'n cael eu lleoli gyda theuluoedd neu gartrefi plant yn y Fwrdeistref Sirol. Cynghorwyd yr Aelodau bod y Swyddfa Gartref wedi cyflwyno'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol y llynedd, sy'n gallu caniatáu ymateb cyflym i blant ar eu pen eu hunain y gellir eu symud o Gaint i unrhyw le yn y DU, ac mae gan bob awdurdod lleol yn y DU darged i'w gyrraedd mewn perthynas â chynorthwyo'r plant hyn. Cynghorwyd yr Aelodau bod gan mwyafrif y plant ddealltwriaeth dda o'r Saesneg ac anaml y ceir anawsterau o ran iaith, er bod gwasanaethau cyfieithu ar y pryd ar gael.

Eglurodd un Aelod fod y tanwariant yn y gwasanaethau i oedolion ar gyfer gofal cartref yn ymwneud yn uniongyrchol â diffyg staff. Eglurodd yr Aelod hefyd fod y swyddi gwag yn y gwasanaethau i oedolion wedi cynyddu, a bod 'costau eraill' yn ymwneud â thîm datblygu'r gweithlu ar y cyd â Blaenau Gwent, a oedd yn darparu cymorth ar draws y gyfadran, a hefyd y byddai 'costau eraill' yn cynnwys cymorth TG, yswiriant, a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad ar yr ymrwymadau a ragwelir o fewn y gwasanaethau i oedolion ac a oedd unrhyw gynlluniau wrth gefn wedi'u hystyried. Cynghorwyd yr Aelodau bod cynlluniau wrth gefn wedi'u cynnwys mewn perthynas â darpariaeth gwasanaethau dydd a bod rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer costau cynyddol. Fodd bynnag, mae problemau o ran staffio yn creu rhagor o anhawster o ran unrhyw gynlluniau wrth gefn.

Hefyd, holodd y Cadeirydd ynghylch cau Cartref Preswyl South View yn y Fwrdeistref Sirol a ddefnyddiwyd ac a ariannwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Cynghorwyd yr aelodau bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf bellach wedi

symud y preswylwyr allan o'r eiddo hwn gan nad oedd bellach yn cwrdd â'u hanghenion nhw, a bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn edrych i addasu'r adeilad ar gyfer ei ddefnyddio.

Nododd y Pwyllgor Craffu gynnwys yr adroddiad.

Terfynwyd y cyfarfod am 7.05pm.

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir, yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau a gytunir a'u cofnodir yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 28 Tachwedd 2023.

CADEIRYDD